**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Mercher, 6ed Medi, 2000 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), M.Ll. Davies, P.Douglas, S. Drew (Aelod Lleol), A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, D. Jones (Dirprwy ar ran D.W. Davies), G. Jones, M.M. Jones (Dirprwy ar ran N.J. Hughes), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, E.W. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Pen Swyddog Cynllunio (De), Uwch-Swyddog Cynllunio (M. Harris), Swyddog Gweinyddol (G. Butler) a Chynorthwy-ydd Gweinyddol (A. Hughes).

**CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies ac N.J. Hughes.

**PERSONOL**

Diolchodd y Cynghorydd Tobin i bawb am fynegi eu pryder yn dilyn ei ddamwain ddiweddar ar yr ymweliad safle â Seidins Pentrefelin, Llangollen.

**421. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio, neu'i wrthod, yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0527/PF | Newid defnydd arfaethedig ac addasu hen iard adeiladydd/gweithdy yn un uned fyw hunangynhwysol yn yr Hen Iard Adeiladydd, 52 Lôn Parc, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig rhif 4 a 10 ac amod newydd rhif 13 sy'n dilyn:-<br>4. Mae mynediad i gerbydau i Lôn Parc i'w gyfyngu i'r fynedfa sy'n gyfagos i'r annedd arfaethedig, ac mae'r bwlch presennol yn y wal yn agos i Rif 50 Lôn Parc i'w gau'n barhaol drwy godi darn o wal sydd â wyneb carreg galch i gyd-fynd â'r un ar y wal bresennol, gyda'r gwaith hwnnw i'w gwblhau cyn dechrau defnyddio'r annedd a'r fynedfa.<br>10. Mae pob wal gerrig i'w hatgyweirio gan ddefnyddio morter calch a thywod llwyd priodol, gydag uniadau cyfwyneb.<br>13. Nid yw'r trefniadau draenio i fod fel y'u dangosir yn y cyflwyniad ond maent i ddarparu ar gyfer asio'r garthffos fudreddi â'r |

garthffos fudreddi gyhoeddus a'r dwr wyneb â'r garthffos dwr wyneb ar wahân ar hyd Lôn Parc.
RHESWM - sicrhau bod y dwr budr a'r dwr wyneb yn cael eu gwahanu.

| | |
|---|---|
| 01/2000/0711/AC | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Dinbych, Yr Ymgeisydd, Mr a Mrs T. Williams o 5 Rhodfa Elgwern, Dinbych a Mr a Mrs B. Jones o 3 Rhodfa Elgwern, Dinbych).<br>Lleihau/coroni canghennau hir o 2 fetr, dan amod 7 caniatâd cynllunio rhif côd 1/10907 yn 3 Ffordd Thomas Gee, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar nodiadau newydd i'r ymgeisydd rhif 1 a 2:-<br>1. Fe'ch cynghorir nad yw rhoi caniatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol i wneud gwaith ar y goeden yn dirymu'r angen i sicrhau unrhyw ganiatâd cyfreithiol ar wahân a all fod ei angen mewn cysylltiad â'r gwaith.<br>2. Dylai'r gwaith gael ei wneud yn gyfan gwbl unol â thelerau'r caniatâd hwn a gan feddyg coed cymwys, ac fe ddylech hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol pan fydd y gwaith ar fynd er mwyn caniatáu i'r safle gael ei archwilio gan Swyddog Coedwigaeth y Sir.<br>(Gofynnodd y Cynghorydd M.Ll. Davies fod ei bleidlais i wrthod caniatâd cynllunio i'w nodi). |
| 13/2000/0543/PF | (Cyhoeddodd y Cynghorydd E.W. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>Codi dwy annedd a gosod tanc carthion newydd ar dir gerllaw Y Gorlan, Pwllglas, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 18/2000/0595/PC | (Ar ôl ystyried newid yn yr adroddiad ynglyn â chywiro arwynebedd y llawr - 27 metr sgwâr nid 108 $m^2$).<br>Cadw storfa oer i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r siop gig bresennol yn y Storfa Oer yng nghefn 4 Kinmel Terrace, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 22/2000/0586/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llangynhafal).<br>Manylion annedd a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd yn flaenorol dan rif côd 22/2000/0118/PO ar dir yn gyfagos i'r Hen Ysgubor, Gellifor, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-<br>1. Fe'ch cynghorir nad yw rhoi caniatâd cynllunio yn cyfleu'r hawl gyfreithiol i gael mynediad neu i wneud gwaith ar unrhyw dir sydd ym mherchenogaeth trydydd person ac fe ddylech sicrhau bod gennych y rheolaeth briodol ar/buddiant mewn tir yn ymwneud â'r fynedfa a'r llwybr ceffylau cyn mynd ymlaen ag unrhyw ddatblygu neu ddefnydd arno. Tynnwyd sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol at hawliadau sy'n groes i'w gilydd ar berchenogaeth y fynedfa, ond ni all yr awdurdod weithredu fel cymrodeddwr mewn unrhyw anghydfod cyfreithiol preifat. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi dweud ei bod yn drosedd dan Ddeddf Traffig y Ffyrdd gyrru cerbyd modur ar lwybr ceffylau neu lwybr troed heb fod yn berchennog y tir neu heb ganiatâd gan y perchennog. Fe all unrhyw hawliadau sy'n fwriadol gamarweiniol neu ddiofal ynghylch perchenogaeth beri bod unrhyw ganiatâd cynllunio yn agored i'w herio.<br>(Gofynnodd yr Aelodau bod rhaid dal yn gyfan gwbl at Amod 3, sy'n ymwneud â chwblhau'r fynedfa cyn cychwyn gwaith adeiladu) |
| 27/1999/0734/PF | Codi adeilad gweithdy ar gyfer atgyweirio/adnewyddu cerbydau/ wageni trên yn cynnwys cyfleuster amgueddfa yn Seidins Pentrefelin, Abbey Road, Llangollen, Sir Ddinbych. |

YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 9, 10, 13, 14 ac 16, amod newydd 2 (wedi'i ailrifo fel a ganlyn) a nodyn diwygiedig i'r ymgeisydd:-

1. Mae'r datblygiad a ganiateir drwy hyn i'w gychwyn cyn pen pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn,

RHESWM - Cydymffurfio â darpariaethau adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud â chodi'r adeilad gweithdy yn unig ac nid yw'n rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw un o'r adeiladau a'r adeileddau atodol y cyfeiriwyd atynt ar gynllun cyfeirnod PS/101 (golchfa trenau, adeilad generadur diesel, polion lampau a lanterni nwy, llawr caled concrid ar gyfer jaciau codi).

RHESWM - Er mwyn osgoi amheuaeth.

3. Mae lliw y dalennau rhychog y bwriedir eu defnyddio ar yr adeilad yn unol â chynllun cyfeirnod Llan/Pen/001/G i fod yn gyfan gwbl unol â pha bynnag sampl a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn ar y datblygu.

4. Nid yw'r darnau o wal allanol y dangosir ar gynllun cyfeirnod Llan/Pen/001/G eu bod wedi'u gorffen mewn gwaith blociau wedi'i rendro i'w hadeiladu yn y defnydd hwn, ond ym mha bynnag garreg neu friciau wynebu a gytunir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn ar y datblygu.

RHESYMAU 3 & 4. Sicrhau bod y datblygiad yn cadw golwg boddhaol, er mwyn amwynder gweledol.

5. Mae'r gwahanol ddefnydd a ganiateir drwy hyn i'w gyfyngu i rhwng 0800 - 1800 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a 0900 - 1700 o'r gloch ar Sadyrnau a Suliau a gwyliau cyhoeddus.

6. Mae pob gwaith atgyweirio/adnewyddu i'w gyfyngu i du mewn y gweithdy yn unig ac mae'n rhaid i ddrysau'r gweithdy fod ar gau bob amser yn ystod unrhyw weithgaredd atgyweirio/adnewyddu.

7. Nid yw dim datblygu i gychwyn hyd nes y bydd cynllun gwanhau sŵn ar gyfer to a waliau'r adeilad wedi'i gyflwyno i'w ystyried a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac mae'r system a gytunir i'w gweithredu yn ei chyfanrwydd yn unol â'r manylion cymeradwyedig cyn dechrau defnyddio'r adeilad.

8. Nid yw'r lefelau sŵn sy'n dod o'r adeilad i fod yn fwy na 40 d B LAeq (1 awr) maes rhydd fel y'u mesurir o unrhyw annedd breswyl, ar unrhyw adeg rhwng yr oriau a amlinellwyd yn amod 5 y caniatâd hwn a 30 d B LAeq (1 awr) ar unrhyw adeg arall.

9. Nid oes dim paentio â chwistrell i'w wneud o fewn yr adeilad heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESYMAU 5 -9 - Diogelu amwynderau preswylwyr tai preswyl cyfagos.

10. Mae'r adeilad sy'n destun y cais hwn i'w ddefnyddio ar gyfer storio, atgyweirio ac adnewyddu cerbydau/wageni trên yn unig gan Reilffordd Llangollen, gyda chyfleuster amgueddfa atodol.

RHESWM - Er mwyn amwynder gweledol.

11. Mae'r man parcio sy'n gyfagos i adeilad y gweithdy fel y'i dangosir ar gynllun cyfeirnod PS/101 a'r fynedfa i gerbydau ato o'r A539 ond i'w defnyddio gan staff ac aelodau Rheilffordd Llangollen, a'r bobl sy'n gweithio ar atgyweirio ac adnewyddu cerbydau a wageni trên, ac nid oes dim mynediad neu barcio i fod ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld.

RHESWM - Er mwyn diogelwch cyhoeddus.

12. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y bydd manylion llawn y llwybrau arfaethedig sy'n darparu mynediad i'r adeilad ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld, y trefniadau arfaethedig ar gyfer mynediad i gerbydau argyfwng, pobl anabl a thraffig adeiladu wedi'u cyflwyno i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a bod cymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod wedi'i sicrhau ar gyfer hynny; ac mae'r trefniadau a gymeradwyir i'w cwblhau yn eu

cyfanrwydd cyn dechrau defnyddio'r adeilad, a'u cadw mewn cyflwr diogel a boddhaol bob adeg wedi hynny.
RHESWM - Er mwyn diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n ceisio mynediad at yr adeilad.
13. Nid yw'r tirlunio/plannu sydd i'w wneud mewn cysylltiad â'r datblygiad i fod fel y'i dangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd, ond mae i fod yn unol â'r cyfryw gynlluniau manwl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac a gaiff eu cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo wedi hynny, i gynnwys plannu o amgylch yr adeilad ac wrth ochr y ffens ystyllod sy'n amlinellu terfyn y safle a phaentio'r ffens yn wyrdd tywyll neu'n ddu cyn dechrau defnyddio'r adeilad.
RHESWM - Er mwyn amwynder gweledol.
14. Mae'r cynllun tirlunio a gymeradwywyd yn unol ag Amod 13 y caniatâd hwn i'w gwblhau dim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl dechrau defnyddio'r adeilad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i gwblhau'r cynllun plannu, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol, i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.
RHESWM - Er mwyn amwynder gweledol.
15. Mae unrhyw gyfleusterau i storio olew, tanwydd neu gemegau i'w lleoli ar seiliau anhydraidd a'u hamgylchynu gan waliau bwnd anhydraidd. Dylai cyfaint yr amgaefa fwnd fod o leiaf yr un faint â chynhwysedd y tanc a 10% ar ben hynny. Rhaid i'r holl fannau llenwi, fentiau, mesuryddion a gwydrau archwilio fod wedi'u lleoli o fewn y bwnd. Mae system ddraenio'r bwnd i'w selio heb ddim arllwysiad i unrhyw gwrs dwr, tir neu strata tanddaearol. Dylai'r gwaith pibellau cysylltiedig fod wedi'i leoli uwchben y ddaear a'i ddiogelu rhag difrod damweiniol. Dylai'r holl fannau llenwi ac allanfeydd pibellau gorlif y tanc gael eu gosod i arllwys ar i lawr i mewn i'r bwnd.
RHESWM - Atal llygru'r amgylchedd dwr.
16. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y bydd manylion llawn yr holl drefniadau draenio dwr budr a dwr wyneb, ac unrhyw waith sydd ei angen i ddiogelu arglawdd y gamlas wedi'u cyflwyno i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei gymeradwyaeth ysgrifenedig ffurfiol, ac mae'r datblygiad i'w gyflawni'n gyfan gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.
RHESWM - Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei wasanaethu gan system ddraenio foddhaol ac nad oes dim ymyrraeth ag arglawdd y gamlas.

| | |
|---|---|
| 40/2000/0620/AD | Codi 3 o bolion fflagiau 8-metr o uchder yng Nghyngor Sir Ddinbych Parc Cinmel, Ffordd Abergele, Bodelwyddan, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>(Ni chymerodd y Cynghorydd G. Jones ran yn y drafodaeth a'r bleidlais). |
| 41/2000/0621/PF | Codi estyniadau unllawr i dy annedd a chodi ystafell wydr yn Tree House Cottage, Ffordd Tremeirchion, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-<br>1. Er gwaethaf y ffurflen gais a gyflwynwyd gallaf eich hysbysu nad oes dim prif system garthffosiaeth ar gael i wasanaethu'r eiddo hwn. |
| 41/2000/0622/PF | Codi estyniad to serth deulawr wrth ochr ty annedd yn yr Hen Gapel, Ffordd Tremeirchion, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych. |
| 41/2000/0730/PC | (Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd, Cyfreithiwr yr Ymgeisydd a G. Evans, Forge Farm Cottage, Bodfari). |

Ymrannu 1 annedd i ffurfio 2 annedd (cais ôl-weithredol) yn The Cottage, Forge Farm, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 1 a 2:-
1. Nid oes neb i fyw yn yr anheddau hyd nes y bydd y lleoedd parcio/garejis, lle troi, a'r fynedfa atynt wedi'u llunio a'u bod ar gael i'w defnyddio yn unol â'r lluniad cynllun bloc rhif C299/1A a gymeradwywyd.
RHESWM - Er mwyn sicrhau bod cyfleusterau parcio a throi digonol ar gael o fewn y safle yn glir o'r briffordd ddosbarthedig.
2. Mae'r lleoedd parcio ceir, garejis, mannau troi a'r fynedfa atynt i'w cadw ar gael bob amser wedi hynny at bwrpas parcio ceir, troi a mynediad.
RHESWM - Er mwyn sicrhau bod cyfleusterau parcio a throi digonol ar gael o fewn y safle yn glir o'r briffordd ddosbarthedig.
(Gofynnwyd i'r swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o gadarnhau trafodaethau'r safle a'r swyddfa mewn du a gwyn)

42/2000/0282/PF

Codi wal derfyn, 4 polyn fflag, ffownten a phont garreg, ac adeiladu llwybrau (yn ôl-weithredol) yn Graig Park Country Club, Allt y Graig, Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar nodyn ychwanegol i'r ymgeisydd
1. Mae Grwp Mynediad Sir Ddinbych wedi gofyn y dylai pob llwybr allanol fod â rhediad o 1:15 o leiaf ac ni ddylai fod dim ymylon cyrbau unionsyth ble mae'r llwybrau'n cwrdd â'r darnau wyneb caled presennol.
(Mynegodd y Cynghorwyr bryder bod ffynonellau golau o amgylch y ffownten i'w gweld o'r briffordd).
(Eto cododd y Cynghorwyr bryderon cryf ynghylch ceisiadau ôl-weithredol a'r ffaith bod y datblygiad wedi bod yn mynd yn ei flaen am nifer o fisoedd heb ganiatâd cynllunio).

42/2000/0363/PF

Newid defnydd tir i ffurfio estyniad i'r cyflenwr adeiladwyr presennol a chodi adeilad to serth unllawr ar gyfer hurio peiriannau bychain, eu gwerthu a'u hatgyweirio (yn rhannol ôl-weithredol) yn Thorncliffe Buildings Supplies, Allt Y Graig, Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig 1, 2 a 5, amod newydd 8 a nodyn ychwanegol i'r ymgeisydd:-
1. "Cynllun diwygiedig SJ972 Lluniad Rhif 1 Rev B" - sillafiad cywir "become" a "diseased".
2. Mae'r coed arfaethedig i'w plannu ar uchder o 2fetr o leiaf.
5. Mae'r gyffordd ag Allt y Graig, mynediad at y safle a'r lle parcio ceir fel y'u dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm i gael wyneb caled a'i farcio o fewn 3 mis i ddyddiad y caniatâd hwn.
8. Dim ond hyd nes y bydd modd mynediad arall i gerbydau ar gael o Stad Fasnachol Talargoch i'r gogledd y bydd mynediad at y safle o Allt y Graig, a phryd hynny bydd mynediad i gerbydau at y safle ar Allt y Graig yn dod i ben a bydd pob mynediad at y safle o'r gogledd. Yr adeg honno mae'r fynedfa at Allt y Graig i'w chau'n barhaol yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - Er mwyn diogelwch y briffordd ac amwynder gweledol.
Nodyn ychwanegol i'r ymgeisydd - Bydd rhaid i'ch cleient ofyn i'r llwybr cyhoeddus sy'n croesi safle'r cais gael ei wyro'n ffurfiol dan y Ddeddf Priffyrdd.

43/2000/0698/PR

(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, New Development Consultants a Phennaeth Priffyrdd).

Manylion annedd breswyl a garej ar ei phen ei hun a gyflwynwyd yn unol ag amod Rhif 1 ar Ganiatâd Cynllunio Cyfeirnod 43/886/99/PO yn 49 Seabank Drive (tir y tu ôl i 37 Purbeck Avenue), Prestatyn, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 2 a nodiadau newydd i'r ymgeiswyr rhif 1, 2, 3 a 4:-
2. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar gyfer wynebau allanol waliau a tho(eau) y datblygiad a ganiateir drwy hyn ac nid oes dim defnyddiau heblaw'r rheini a gymeradwywyd i'w defnyddio.
Nodiadau newydd i'r ymgeiswyr:-
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffordd Atodol Rhif 1, 2, 4, 5, a 10 sydd ynghlwm.
2. Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N sydd ynghlwm (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).
3. A wnewch chi sylwi os gwelwch yn dda bod y datblygiad hwn i'w ddraenio ar system ar wahân. Am ragor o wybodaeth a wnewch chi gysylltu â New Development Consultants ar 01492 543950 os gwelwch yn dda.
4. Ni chaniateir unrhyw asiad newydd â'r system garthffosiaeth gyhoeddus heb gymeradwyaeth o flaen llaw a goruchwyliaeth New Development Consultants.

45/2000/0342/PF — Addasu gwesty segur i greu 4 fflat hunangynhwysol yn 33 Warren Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-
3. "Lluniad Rhif T.03.03/00".

45/2000/0571/PF — Newid defnydd siop llawr isaf Dosbarth A1 yn lle prydau parod poeth Dosbarth A3 yn 43 Stryd y Dwr, Y Rhyl.

45/2000/0747/PF — (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl).
Newid defnydd o westy (Dosbarth C1) yn annedd breswyl (Dosbarth C3) yn 27 Stryd y Dwr, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2000/0478/LB | (Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 6ed Hydref, 2000 gwrthodwyd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd). (a) Bwriad i waredu rendr oddi ar flaenlun 15 Bridge Street (b) Cadw blaenlun rwbel cerrig 17 Bridge Street yn 15 a 17 Bridge Street, Llangollen, Sir Ddinbych. |

*(b) Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, bod y cais canlynol i'w wrthod am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 43/2000/0372/PF | Codi estyniad unllawr i ddarparu 9 ystafell wely a lle dydd cysylltiedig i'r cartref nyrsio yng Nghartref Preswyl Priory House, 61-63 Ffordd Gronant, Prestatyn, Sir Ddinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>1. Byddai'r estyniad cefn arfaethedig yn arwain at orddatblygu'r safle oherwydd colli rhan sylweddol o'r ardd gefn, yn arwain at le amwynder annigonol y tu allan, a golwg cyfyng er anfantais i |

amwynderau preswyl a gweledol trigolion yr adeilad a phreswylwyr tai cyfagos ac yn groes i Bolisi R17 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan a meini prawf (ii) a (iv) Polisi CF5 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. (Gofynnodd y Cynghorydd S. Drew bod ei phresenoldeb yn yr ymweliad â'r safle i'w nodi).

*(c)* *bod y ceisiadau canlynol i'w gohirio er mwyn gallu cynnal ymweliadau safle am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2000/0532/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Mr R. Owen, Bryn Awel, St Meugans, Rhuthun).<br>Codi estyniad llawr cyntaf y tu ôl i'r annedd bresennol yn Rhewl Wen, St Meugans, Rhuthun, Sir Ddinbych.<br>(RHESWM: asesu effaith y datblygiad ar eiddo cyfagos) |
| 18/2000/0399/PF | Bwriad i godi annedd cyfnewid, a newid defnydd cae amaethyddol cyfagos i ganiatáu ar gyfer estyn cwrtil y cartref yn Celynog, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>(RHESWM: asesu cyflwr yr adeilad presennol a'r materion sy'n berthnasol i godi anheddau cyfnewid) |

*(ch)* *gohiriwyd y cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 18/2000/0524/LB | Manylion diwygiedig addasu'r ty allan yn anheddau a ganiatawyd yn flaenorol dan Rif côd 18/1016/98/PF yn y Tai Allan yn Plas Bennett, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>RHESWM - er mwyn gallu rhoi mwy o gyhoeddusrwydd. |

**422. SIOP FWYD ARFAETHEDIG, STRYD FAWR, PRESTATYN**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Chlerc y Sir adroddiad ysgrifenedig ar y cyd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) a oedd yn gofyn am ailbenderfynu cais am siop fwyd (cais cyfeirnod 43/910/97/PO) ar y Stryd Fawr, Prestatyn. Roedd y cais gwreiddiol wedi'i benderfynu dros 12 mis yn ôl heb ddod i gytundeb ar yr ymrwymiad Adran 106.

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Tesco, fe:-

***BENDERFYNWYD*** *rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu dan gais cyfeirnod 43/910/97/PO ar yr amod bod yr ymgeiswyr yn gyntaf yn gwneud Ymrwymiad dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymwneud â'r materion a amlinellwyd ym mharagraff 26 yr Adroddiad i Bwyllgor Cynllunio y 15fed Ebrill 1998 ac yn amodol hefyd ar yr amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw ynghyd â diwygiadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 2.3 yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar 28ain Gorffennaf 1999.*

**423. GOFYNIAD AM YMRWYMIAD ADRAN 106 MEWN PERTHYNAS Â CHODI GAREJ CARTREF, HAFOD Y BRYN, LLANFAIR D.C.**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhoi gwybod am y sefyllfa bresennol yn Hafod y Bryn, Llanfair D.C., ac a oedd angen penderfyniad ynghylch yr angen i Gytundeb Adran 106 gael ei weithredu, cyn rhyddhau tystysgrif rhif côd 20/859/99/PF.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdodiad i ryddhau'r Dystysgrif Penderfyniad ar gais Rhif Côd 20/859/99/PF, heb yr angen am Ymrwymiad Adran 106 yn ymwneud â gollwng y caniatâd blaenorol ar gyfer garej cartref, a ganiatawyd dan Rif Côd 20/14808 Cyngor Dosbarth Glyndwr, ac yn amodol ar gydymffurfio â'r amod canlynol:-*

*Nid oes dim coed neu wrychoedd o fewn safle'r cais i'w torri, eu tocio neu'u brigdorri heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. Mae'r rheini a waredir heb*

*ganiatâd neu sy'n marw neu'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n cael eu heintio'n ddifrifol o fewn pum mlynedd i gwblhau'r datblygiad i'w cyfnewid am goed neu blanhigion gwrych o ba bynnag faint a rhywogaeth ag sydd i'w gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*

*Rheswm - diogelu'r coed a'r gwrychoedd presennol ar y safle, er mwyn amwynderau gweledol y gymdogaeth.*

**424. EITEMAU ER GWYBODAETH**

(a) Gweithdrefnau'r Panel Archwilio Safleoedd
(b) Chwarel Burley Hill, Maeshafn
(c) Cais Fferm Wynt

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r Aelodau.

***PENDERFYNWYD** - derbyn yr adroddiad.*

**425. ADRODDIAD GORFODI**

ENF/181/99/S

Cael gwared â rendr oddi ar y talwyneb blaen allanol - 17 Bridge Street, Llangollen

Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 6ed Hydref, 2000.

***PENDERFYNWYD** rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

*(a) cyflwyno rhybudd gorfodaeth adeilad rhestredig i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ailrendro er mwyn cydweddu â golwg yr adeilad rhestredig cyfagos Rhif 15 Bridge Street;*

*(b) bod y rhybudd i'w gyflwyno cyn gynted ag sy'n bosibl a bod cyfnod o 12 mis i gydymffurfio'n cael ei roi er mwyn caniatáu cyfnod rhesymol i'r perchennog wneud y gwaith, a*

*(c) cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw rybuddion iddo neu iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/ eu herbyn os digwydd iddynt fethu â chydymffurfio â'u gofynion.*

**426. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar Ddydd Iau, 14eg Medi, 2000 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD** - cynnal yr ymweliadau safle cymeradwyedig ar Ddydd Iau, 14eg Medi, 2000.*

**427. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 8fed Gorffennaf, 2000 a 18fed Awst, 2000.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30p.m.

*****************